Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2025

> Yn ddiweddar, mae Defra wedi rhyddhau ffigurau trwybwn lladd-dai y DU ar gyfer mis Mehefin sy'n awgrymu bod cynhyrchiant cig eidion yn llai am 6 mis cyntaf 2025, tra bod cynhyrchiant cig defaid wedi cynyddu. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.

**Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



## GWARTHEG




Yn ystod hanner cyntaf (H1) 2025, *cyfanswm* trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd **1.3 miliwn pen** yn ôl ffigurau diweddaraf Defra. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 4% (neu 57,000 pen) o'i gymharu â H1 2024, ac mae hefyd 2.5% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer yr un cyfnod. Cafodd y dirywiad blwyddyn ar flwyddyn hwn ei sbarduno'n bennaf gan ostyngiad yn nifer y gwartheg dethol.

Gostyngodd trwybwn *gwartheg dethol* yn H1 2025 o 3% flwyddyn ar flwyddyn, sef cyfanswm o 1.0 miliwn pen, sef y lefel isaf hefyd ers H1 2022. Cofnododd niferoedd o fustych a laddwyd eu lefel isaf o'u cymharu â'r cyfnod 5 mlynedd diweddaraf ar 507,100 pen - i lawr 5% ar y flwyddyn, a 4% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd. Cofnododd heffrod ddirywiad blwyddyn ar flwyddyn o 1% yn dilyn cyfnodau gorau 2024, fodd bynnag, mae lefelau trwybwn yn parhau i fod yn uchel ac roeddent 4% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar 429,200 pen. Mae'r trwybwn heffrod uchel hwn, a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bellach yn gyfran gynyddol o drwybwn gwartheg dethol. Yn H1 2021, roedd heffrod yn cyfrif am 38% o'r gwartheg dethol a laddwyd, sydd bellach wedi cynyddu i 42% yn 2025. Wrth i fuches gwartheg y DU barhau i fod mewn dirywiad, ni fydd trwybwn heffrod uchel yn gwneud fawr ddim i wyrdroi hyn. Mae adroddiadau'r farchnad yn awgrymu bod y niferoedd wedi aros yn dymhorol isel yn ystod yr wythnosau diwethaf, gyda'r cyfnod sych diweddar yn arwain at anifeiliaid ysgafnach, heb eu pesgi gymaint.

Yn dilyn dwy flynedd o sefydlogrwydd; gostyngodd nifer y *gwartheg llawn-dwf* o tua 5% (neu 14,200 pen) ar y flwyddyn i sefyll ar 287,300 pen — sydd hefyd 5% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyfatebol. Mae lefelau lladd gwartheg llawn-dwf yn llai er bod prisiau pwysau marw yn nodedig o gryf hyd yn hyn yn 2025. Cyrhaeddodd cyfartaleddau uchafbwyntiau hanesyddol o £5.37/kg yn ystod mis Mai, a oedd 50% yn uwch ar y flwyddyn. O ystyried pwysau trwybwn a charcas, roedd cyfanswm cynhyrchiant cig eidion a chig llo yn y DU ar gyfer H1 2025 yn 445,400 tunnell, sef 4% yn is na'r lefelau a gofnodwyd ar gyfer H1 2024 a 2023.

## DEFAID




Cyfanswm nifer y defaid a'r ŵyn a broseswyd yn lladd-dai y DU yn ystod H1 2025 oedd **6.3 miliwn pen**, gan nodi cynnydd o 3% (neu 176,800 pen) o'r flwyddyn flaenorol, a sbardunwyd gan nifer cynyddol o ŵyn yn cael eu cyflwyno.

Roedd niferoedd lladd *ŵyn dethol* yn H1 i fyny 4% (neu 215,700 pen) flwyddyn ar flwyddyn i 5.6 miliwn pen - er bod y lefel uchel hon mewn gwirionedd 5% yn is nag uchafbwyntiau 2023. Cofnododd ail chwarter 2025 (Ebrill - Mehefin) lefelau uwch o drwybwn a sbarduno'r cynnydd cyffredinol ar gyfer H1, sy'n debygol o fod yn ganlyniad i oedi wrth besgi gan arwain at niferoedd cynyddol o Ŵyn yr Hen Dymor yn cael eu cyflwyno. O ganlyniad, mae cyfanswm trwybwn cig oen 1% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyfatebol. Cynyddodd y cyflenwad yn unol â'r cynnydd yn y galw o amgylch y Pasg ym mis Ebrill eleni, gan fod y trwybwn bron i 19% yn uwch ym mis Ebrill o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt. Oherwydd y tueddiadau cyflenwi naturiol yn y DU, mae'r prif gyflenwad fel arfer yn digwydd yn hanner olaf y flwyddyn, gyda'r niferoedd yn cyrraedd tua 6.0 miliwn yn ystod H2 y llynedd. O ystyried y gostyngiad o 5% yn niferoedd diadell fridio benywaidd fel yr adroddwyd yn arolwg mis Rhagfyr, disgwylir i'r cnwd cig oen 2025-26 fod yn llai na'r cnwd y flwyddyn flaenorol, gan arwain at ostyngiad cyffredinol yn y niferoedd. Yn debyg i gig eidion; mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod argaeledd is o stoc wedi'i besgi'n dda yn dilyn y cyfnod sych, tra bod argaeledd domestig bellach yn ddibynnol yn dymhorol ar ŵyn tymor newydd.

Roedd trwybwn *defaid llawn-dwf* yn H1 6% nodedig yn is na'r lefelau flwyddyn ynghynt i 654,000 pen - y lefel trwybwn isaf a gofnodwyd. Mae cyflenwadau tynnach wedi sbarduno prisiau ffermio cryf ar gyfer defaid llawn-dwf, gyda chanlyniadau arolwg mis Rhagfyr yn awgrymu bod poblogaethau defaid ledled y DU wedi lleihau. Mae cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn H1 2025 4% yn uwch na lefelau flwyddyn ynghynt, sef 135,100 tunnell.

## MOCH




Roedd *cyfanswm* trwybwn moch yn lladd-dai y DU yn H1 2025 i fyny 3% o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt, sef bron i **5.3 miliwn** pen. O'i gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd (2020-2024) ar gyfer H1, mae'r lefel trwybwn gyfredol ryw 3% yn is. Mae cynhyrchiant cig moch ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn 4% ar y blaen i'r llynedd, sef 483,400 tunnell, sy'n cael ei briodoli i fwy o drwybwn a phwysau carcas ychydig yn drymach.

***Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?***

*Mae'n debyg y bydd y sector cig eidion a defaid yn profi prisiau anwadal wrth i lefelau cynhyrchu barhau i fod yn gyfyngedig yn hanner olaf 2025. Gallai cyfnodau sych/tywydd eithafol parhaus hefyd effeithio ar dwf glaswellt ac argaeledd porthiant, gan arwain at dda byw ysgafnach, heb eu pesgi gymaint ac o bosibl effeithio ar niferoedd lladd.*

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 12 Gorffennaf

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **636.0c/kg**. Roedd hyn:

- + 3.9c ar yr wythnos flaenorol,
- 156.4c uwchlaw lefelau flwyddyn ynghynt.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 632.8c/kg (+ 2.0c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 627.1c/kg (-0.3c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 505.5c/kg (+ 5.5c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Mehefin 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 210,700 pen – gostyngiad o 5% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 162,400 pen - i lawr 5% ar y flwyddyn.
    - ➢ *bustych -7%, heffrod -2%, a theirw ifanc -2%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 345.0kg (-2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 43,100 pen - i lawr 6% ar y flwyddyn.



Pris pwysau marw holl bustych Cymru a Lloegr

**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU**
**Mehefin '25**
**70,000 tunnell**
**-5% b-a-f**



## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 12 Gorffennaf

Roedd y pris cig oen pwysau marw* ym Mhrydain ar gyfartaledd yn **730.6c/kg**. Roedd hyn:

- - 3.6c ar yr wythnos flaenorol,
- - 85.0c o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt,
- 140.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 590.4c/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 27,600 pen. Roedd hyn:

- - 0.6% ar yr wythnos flaenorol
- - 31% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

**Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.*

### Trwybwn – Mehefin 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 8% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 960,400 pen – cynnydd o 9% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas cig oen cyfartalog = 20.4kg (+0.5kg).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 125,100 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.



Pris pwysau marw cyfartalog defaid SQQ Prydain Fawr

**Cynhyrchiant cig defaid yn y DU**
**Mehefin '25**
**23,000 tunnell**
**+9% b-a-f**



## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 12 Gorffennaf

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **207.7c/kg**. Roedd hyn:

- +0.2c ar yr wythnos flaenorol,
- - 2.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 17.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 190.2c/kg).

**Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.*

### Trwybwn – Mehefin 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 861,800 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 846,100 pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 90.1kg (+0.3kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 15,700 pen – i lawr 22% ar y flwyddyn.



Pris Moch Safonol (SPP) u DU (manyleb yr UE)

**Cynhyrchiant porc y DU**
**Mehefin '25**
**78,700 tunnell**
**+2% b-a-f**

